

QWB24.2 - Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019

.

Presennol:

Ann Evans (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Hefyd yn bresennol:

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS) (dros y ffôn), Joanne Nicholas (JN), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG) – eitem 8, Oliver Stacey (OS) – eitem 8, Dan Tromans – eitem 7, Jo Valentine (JV) - Llywodraeth Cymru, David B Jones.

Ymddiheuriadau:

Dim.

Eitem Bwrdd Caeddig

Papur wedi'i rifo ar wahân

Mae papurau a chofnodion yr eitem hon yn sensitif ac yn cael eu cofnodi mewn man arall.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Estynnodd y Cadeirydd groeso i David Jones, Cadeirydd Cymwysterau Cymru o 1 Hydref 2019, Jo Valentine, Pennaeth Nawdd ac Asesu, Llywodraeth Cymru a Cassy Taylor, Cyfarwyddwr Diwygio Polisi Cymwysterau, Cymwysterau Cymru. Dyma eu cyfarfod cyntaf o Fwrdd Cymwysterau Cymru yn eu rolau newydd.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant. Nododd Ellen Donovan (ED) ei rôl fel Aelod Annibynnol o Bwyllgor Taliadau Llywodraeth Cymru. Hysbysodd ED y Bwrdd fod Ann Evans, ym Mhwyllgor Taliadau Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019, wedi cymryd swydd y Cadeirydd ar gyfer yr eitem ar yr agenda mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog.
- 1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau unrhyw faterion y dymunent eu trafod yn y papurau gwybodaeth. Gofynnodd y Bwrdd i eitem 16 - briff cyfathrebu gael ei drafod fel rhan o Unrhyw Fater Arall.

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019 a Materion sy'n Codi

- 2.1. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.

- 2.2. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad am y camau gweithredu yn y cofnodion, ac roedd pob un ohonynt wedi'i gwblhau.

Materion yn Codi

- 2.3. Gofynnodd y Bwrdd a oedd y materion a achoswyd gan ddatblygiadau i gronfa ddata QiW wedi'u datrys. Cadarnhaodd Philip Blaker (PB) fod materion wedi'u datrys a bod gwersi wedi'u dysgu mewn perthynas â rheoli gwelliannau.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau wedi'u cwblhau.

3. Diweddariad y Cadeirydd

- 3.1. Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad llafar ar ei gweithgareddau diweddar er gwybodaeth i'r Bwrdd. Roedd y gweithgareddau diweddar yn cynnwys cyfarfod diwedd deiliadaeth gyda Chyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg. Adroddodd y Cadeirydd fod y ddau gyfarfod wedi adlewyrchu'n gadarnhaol ar Cymwysterau Cymru.
- 3.2. Bu'r Cadeirydd yn myfyrio ar y pedair blynedd diwethaf gan amlygu cynnydd y sefydliad ers ei sefydlu. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd am eu gwaith caled, eu hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu da, a dymunodd yn dda i David Jones (ei holynydd).
- 3.3. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nodi'r diweddariad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd ddiweddariad y Cadeirydd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol gan nodi ei fod yn cwmpasu eitemau nad oeddent yn ymddangos mewn manau eraill ar agenda'r Bwrdd.
- 4.2. *Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol* - Hysbysodd PB y Bwrdd fod yr addysgu wedi cychwyn ar gyfran gyntaf y gyfres newydd o gymwysterau ac y byddai lansiad y cymwysterau newydd yn cael ei gynnal yng Ngholeg Pen-y-bont ar 27 Medi 2019. Rhoddodd PB ddiweddariad ar y cynnydd yn erbyn cymwysterau y bwriadwyd eu haddysgu cyntaf o 2020, a oedd yn cynnwys y Safon Uwch, cymwysterau lefel 3 newydd ar gyfer Addysg Bellach a nifer o gymwysterau lefel 4 a 5. Adroddwyd y bu cynnydd da gyda'r cymwysterau Safon Uwch a lefel 3, yn ogystal â'r cymwysterau rheoli lefel 4 a 5. Amlygodd PB fod cymwysterau 'arbenigedd' lefel 4

wedi profi'n broblemus a bod Consortiwm y corff dyfarnu a chyrrff sector yn ceisio eglurder ynghylch mecanweithiau derbyn, hydrinedd a chyflawni tebygol. Hysbysodd PB y Bwrdd fod yr oedi wedi arwain at orgyffwrdd â chymeradwyo cymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (CBE) a Thechnoleg Ddigidol ddiwygiedig. Cytunwyd i flaenoriaethu cymeradwyo cymwysterau CBE a Thechnoleg Ddigidol, a byddai'r dyddiadau cyflwyno ar gyfer cymwysterau HSC lefel 4 a 5 yn cael eu hamserlennu o amgylch hyn. Trafododd y Bwrdd y prosiect a cheisiodd eglurhad ar rôl Cymwysterau Cymru mewn perthynas ag adnoddau. Cadarnhaodd PB ei bod yn rhwymedigaeth gontractiol i'r cyrrff dyfarnu ddarparu adnoddau.

- 4.3. *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig* - Atgoffodd PB y Bwrdd fod contract wedi'i ddyfarnu i City and Guilds sy'n gweithio mewn partneriaeth ag EAL i ddatblygu cymwysterau Sylfaen, Dilyniant a Phrentisiaeth i'w defnyddio mewn addysg bellach ac ar raglenni prentisiaeth, i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2021. Ar ben hynny roedd cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn cael eu datblygu gan CBAC yn erbyn meini prawf cymeradwyo Cymwysterau Cymru. Adroddodd PB fod datblygiad cymwysterau newydd yn dod yn ei flaen yn dda a'i fod wedi elwa o'r gwersi a ddysgwyd o lechyd a Gofal Cymdeithasol. Hysbysodd PB y Bwrdd fod dulliau pobl o reoli newid yn wahanol a'r bwriad oedd dyfarnu cyllid grant ar gyfer rôl rheolwr newid yng Ngholegau Cymru. Roedd CITB hefyd wedi cynnig adnoddau staff i arwain ar ymgysylltu â chyflogwyr.
- 4.4. *Profion Sampl Cenedlaethol* - Hysbysodd PB y Bwrdd fod cyngor wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Phroffion Sampl Cenedlaethol, ond na fu llawer o weithgaredd dros yr haf. Deallwyd nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd a fyddai'n ychwanegu at rôl bresennol Cymwysterau Cymru.
- 4.5. *Arolwg Pobl* - Adroddodd PB y byddai Arolwg Pobl 2019 yn cael ei lansio ar 7 Hydref 2019 ac y byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2020. Nododd PB fod y camau a gymerwyd o ganlyniad i arolwg y llynedd yn cynnwys yr ail-ffurfweddu, adolygu'r system rheoli perfformiad a gweithio ar gymaroldeb rolau.
- 4.6. *Dyfarniad cyflog 2019* - Hysbysodd PB y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ei dyfarniad cyflog a bod cynnig cyfochrog wedi'i gynnig i gangen PCS Cymwysterau Cymru (ein hundeb llafur cydnabyddedig). Nododd PB fod y cynnig yn ychwanegu 2.3% at y bil cyflogau yn ystod y flwyddyn. Hysbysodd PB y Bwrdd fod 3% dros ddwy flynedd wedi cael ei gyllidebu ac felly pan fyddai dyfarniad cyflog arall y flwyddyn nesaf byddai hyn yn cael effaith ar y Cynllun Cyllid Tymor Canolig. Hysbyswyd y Bwrdd y byddai llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at ein pryderon.
- 4.7. *Brexit* - Diweddarodd PB y Bwrdd ar y paratodau ar gyfer Brexit a chadarnhaodd mai'r risg fwyaf sylweddol fyddai mynediad at ddata gan fod data Cymwysterau Cymru yn cael ei gynnal gan Microsoft yn Nulyn neu Amsterdam. Hysbysodd PB y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu copi o lythyr a dderbyniwyd gan

Microsoft a oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch prosesu data personol ar gyfer y DU ar ôl i'r DU dynnu allan o'r UE. Gofynnodd y Bwrdd am eglurder ynghylch sefyllfa cyrff dyfarnu. Cadarnhaodd PB fod sicrwydd wedi'i gymryd gan CBAC. Hysbyswyd y Bwrdd fod dull tair gwlad yn cael ei ddefnyddio i adolygu risgiau Brexit a bod yr Adran Addysg yn arwain grŵp Brexit a oedd yn cyfarfod bob pythefnos.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a diolch iddo am ei ddiweddariad.

5. Adroddiad Blynyddol 2018-19

- 5.1. Cyflwynodd Joanne Nicholas (JN) Adroddiad Blynyddol 2018-19 ac atgoffodd y Bwrdd ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r sefydliad gyhoeddi adroddiad blynyddol i'w archwilio gan y Cynulliad Cenedlaethol. Y bwriad oedd i'r ddogfen gael ei chyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd cyn yr adolygiad a drefnwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Rhagfyr 2019.
- 5.2. Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad. Gwnaed awgrymiadau amrywiol i'w hystyried ar gyfer fformat y flwyddyn nesaf yn ogystal â rhai mân welliannau i gynnwys eleni.
- 5.3. Cadarnhaodd JN y gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a dirprwyo'r gymeradwyaeth derfynol, yn dilyn mân welliannau, i'r Prif Weithredwr. Cymeradwyodd y Bwrdd y cais a diolchodd i'r tîm am gynhyrchu'r adroddiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol a dirprwyo'r gymeradwyaeth derfynol i'r Prif Weithredwr.

6. Cyfres arholiadau'r haf

- 6.1. Rhoddodd Jo Richards (JR) drosolwg o'r canlyniadau ar gyfer cymwysterau UG/Lefel A a TGAU. Amlygodd JR fod canrannau cyffredinol y graddau A* ac A a ddyfarnwyd i Safon Uwch yng Nghymru wedi codi, tra bod y gyfradd basio gyffredinol yn aros yn sefydlog. Nododd JR hefyd fod y perfformiad cyffredinol ar gyfer TGAU yn sefydlog. Roedd diwrnodau canlyniadau wedi rhedeg yn esmwyth, ac roedd y sesiynau briffio rhanddeiliaid wedi bod yn fuddiol. Trafododd y Bwrdd wahanol agweddau ar y canlyniadau a rhoddodd JR wybodaeth bellach mewn perthynas â'r gostyngiad mewn cyrhaeddiad ar gyfer TGAU Iaith Saesneg ar raddau A* - C, gostyngiad parhaus mewn cofrestriadau leithoedd Tramor Modern a'r gostyngiad mewn cyrhaeddiad ar gyfer TGAU Ail Iaith Gymraeg ar raddau. A*-C.
- 6.2. Hysbysodd JR y Bwrdd o'r gwaith a oedd yn deillio o'r gyfres arholiadau a oedd yn cynnwys adolygiad o gymwysterau TGAU mewn leithoedd Tramor Modern i

ymchwilio i'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ac adolygiad o TGAU Iaith Saesneg yng ngoleuni'r gostyngiad mewn cyrhaeddiad.

- 6.3. Hysbyswyd y Bwrdd o'r penderfyniad i roi'r gorau i Gymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Ôl 16) a Chenedlaethol (Ôl 16). Nodwyd mai niferoedd isel iawn o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer y cymwysterau hyn, a byddai'r ddau brif gymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau (y Sylfaen/Cenedlaethol, a gymerwyd yng Nghyfnod Allweddol 4, a'r Uwch, a gymerwyd yng Nghyfnod Allweddol 5) yn aros. Amlygodd y Bwrdd fod cyfathrebu'r penderfyniad hwn yn effeithiol yn bwysig.
- 6.4. Hysbysodd JR y Bwrdd y byddai'r gwaith ar TGAU Iaith Saesneg yn canolbwyntio ar ddod â rhanddeiliaid ynghyd gan fod y materion yn debygol o fod yn ehangach na dyluniad y cymwysterau yn unig. Adroddwyd iddo gael ei drafod gydag Estyn a'u bod wedi ymateb yn gadarnhaol.
- 6.5. Trafodwyd y gwaith ar leithoedd Tramor Modern. Nododd JR y byddai cwmpas y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y misoedd nesaf ac y byddai'n cael ei drafod gyda'r Pwyllgor Rheoleiddio.
- 6.6. Trafododd y Bwrdd hefyd effaith bosibl cyhoeddi canlyniadau PISA ar ganfyddiadau'r cyhoedd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar gyfres arholiadau'r haf.

7. Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol

- 7.1. Croesawyd Dan Tromans (DT) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
- 7.2. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ar yr agenda ac atgoffodd aelodau'r Bwrdd fod y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol (PQL) wedi'i pharatoi ar y cyd gan Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru a chyfrifoldeb Bwrdd Cymwysterau Cymru oedd adolygu'r rhestr ac argymhell unrhyw newidiadau i'r Gweinidog Addysg.
- 7.3. Rhoddodd DT grynodeb o'r newidiadau arfaethedig, a oedd yn cynnwys:
 - Cynnwys Technoleg Ddigidol TGAU yn yr adran sy'n edrych i'r dyfodol.
 - Cynnwys Technoleg Ddigidol UG a Safon Uwch yn yr adran sy'n edrych i'r dyfodol.
 - Diwygio teitl cymwysterau gwasanaethau adeiladu i Beirianeg Gwasanaethau Adeiladu.
 - Diwygio teitl rhai o'r cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a chymwysterau Gofal Plant yn ogystal â gwahanu un cymhwyster yn bedwar.
 - Symud y TGAU a Safon Uwch yn yr Amgylchedd Adeiledig o'r adran edrych i'r dyfodol i'r PQL.

- 7.4. Trafododd y Bwrdd y diwygiadau arfaethedig a chymeradwyo'r PQL diwygiedig i'w argymhell i'r Gweinidog Addysg.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol i'w hargymhell i'r Gweinidog Addysg.

8. Ymgynghori ar yr ystod o gymwysterau 14-16 yn y dyfodol yng Nghymru

- 8.1. Croesawodd y Cadeirydd Oliver Stacey (OS) ac Emyr George (EG) i'r cyfarfod.
- 8.2. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ar yr agenda a rhoi gwybod i aelodau'r Bwrdd mai pwrpas yr eitem ar yr agenda oedd rhoi sylwadau ar y ddogfen ymgynghori ddrafft ar yr ystod o gymwysterau 14-16 yn y dyfodol yng Nghymru.
- 8.3. Dywedodd EG wrth y Bwrdd fod y ddogfen wedi bod trwy nifer o iteriadau a'i bod yn parhau i fod yn ddrafft gweithio. Gofynnodd EG i'r Bwrdd ddarparu sylwadau.
- 8.4. Darparodd y Bwrdd y sylwadau canlynol:
- Yr angen i gryfhau'r weledigaeth. Trafododd a chytunodd y Bwrdd y weledigaeth ganlynol - 'Ein gweledigaeth yw bod pobl ifanc 16 oed yn sefyll cymwysterau uchel eu parch sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.'
 - Mae angen cysylltu'r weledigaeth â gweddill y ddogfen.
 - Dylai'r cwestiynau ymgynghori ganiatáu cyfle i anghytuno.
 - Dylid adlewyrchu ar y negeseuon sylfaenol gan y gellid eu dehongli fel dim newid.
 - Mae angen ystyried effaith yr egwyddor y dylai popeth fod ar gael yn ddwyieithog.
 - Dylai strwythur y ddogfen nodi'n glir beth sy'n gynnig cadarn a beth sy'n dal i fod yn ystyriaethau cynnar.
 - Dylid cyfeirio at Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoi ystyriaeth i bolisiau economaidd Llywodraeth Cymru.
- 8.5. Diolchodd y Cadeirydd i EG ac OS am eu gwaith. Cytunwyd y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gylchredeg i bwyllgor gweithredol aelodau'r Bwrdd tua diwedd mis Hydref i'w adolygu'n derfynol. Byddai'r Prif Weithredwr yn ei gymeradwyo ar y cyd â'r Cadeirydd.

CAM GWEITHREDU 01 - EG / JN i gylchredeg yr ymgynghoriad cwricwlwm i aelodau'r Bwrdd ddiwedd mis Hydref.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Adolygodd y Bwrdd yr ymgynghoriad drafft ar yr ystod o gymwysterau 14-16 yng Nghymru yn y dyfodol a rhoi sylwadau arno.

9. Unrhyw fater arall

- 9.1. Diolchodd y Bwrdd i Jo Richards a'i thîm am gyflwyno cyfres arholiadau'r haf yn llyfn. Nododd y Bwrdd y dylai'r briff cyfathrebu (cyfeirnod papur QWB23.16) ddarparu llinellau mwy cadarnhaol ynglŷn â chyfres arholiadau'r haf.
- 9.2. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod.
- 9.3. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am ei chyfraniad dros y pedair blynedd diwethaf gan adlewyrchu ar gynnydd y sefydliad. Cydnabu'r Bwrdd ymrwymiad y Cadeirydd, y sefydlogrwydd yr oedd hi wedi'i ddwyn i'r sefydliad yn ystod ei flynyddoedd cynnar a'i hangerdd dros gefnogi dysgwyr yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.00